Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 9

## Rheoliadau’r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Ionawr 2026* |
| *Yn dod i rym* | *11 Chwefror 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 9

## The Welsh Elections Information Platform (Amendments) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *19 January 2026* |
| *Coming into force* | *11 February 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 9

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 ("Rheoliadau 2025").

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli cyfeiriadau at orchymyn o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn Rheoliadau 2025 er mwyn mewnosod, yn lle hynny, y darpariaethau cyfatebol penodol yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (O.S. 2025/864) (Cy. 150).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau i'r diffiniad o "ymgeisydd" er mwyn gwahaniaethu'n gliriach rhwng ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid, a dileu'r amod ynghylch yr arddull ffont ar gyfer datganiad ymgeisydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 9

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Ionawr 2026* |
| *Yn dod i rym* | *11 Chwefror 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 26(1), (2), (3)(a), (4) ac (8) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026.

**2.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Chwefror 2026.

### Dehongli

**3.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2025" yw Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025(**2**).

### Diwygio

**4.** Mae Rheoliadau 2025 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 5 a 6.

**5.** Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "Gorchymyn 2025" ("*the 2025 Order*") yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025;"(**3**);

(b) yn y diffiniad o "ymgeisydd", ym mharagraff (a), yn lle "unigolyn sy'n ymgeisydd" rhodder "ymgeisydd unigol";

(c) yn y diffiniad o "anerchiad etholiadol", yn lle "yn rhinwedd gorchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006," rhodder "o dan erthygl 67 o Orchymyn 2025,";

(d) yn y lle priodol, mewnosoder—

(**1**) 2024 dsc 5.
(**2**) O.S. 2025/331 (Cy. 66).
(**3**) O.S. 2025/864 (Cy. 150).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"ystyr "ymgeisydd unigol" ("*individual candidate*") yw ymgeisydd mewn etholiad i'r Senedd heblaw ymgeisydd rhestr plaid;".

**6.** Yn rheoliad 6(1) (gwybodaeth i'w chyhoeddi ar y platfform)—

(a) yn lle is-baragraff (a)(i) rhodder "(i) rheol 3 o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;";

(b) yn lle is-baragraff (b)(i) rhodder "(i) rheol 17 o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;";

(c) yn lle is-baragraff (c)(i) rhodder "(i) rheol 31 o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;";

(d) yn lle is-baragraff (f)(i) rhodder "(i) rheol 32(2) o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;";

(e) yn lle is-baragraff (h)(i) rhodder "(i) rheol 62 o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;".

**7.** Yn rheoliad 11(1) (datganiad ymgeisydd ar gyfer etholiadau cyffredin prif gynghorau), hepgorer is-baragraff (b).

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
19 Ionawr 2026

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 9

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Welsh Elections Information Platform (Amendments) Regulations 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Welsh Elections Information Platform Regulations 2025 ("the 2025 Regulations").

These Regulations replace references to an order under section 13 of the Government of Wales Act 2006 in the 2025 Regulations to instead insert the particular corresponding provisions of the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025 (S.I. 2025/864) (W. 150).

These Regulations also make amendments to the definition of "candidate" to more clearly differentiate between individual and party list candidates, and remove the condition regarding the font style of a candidate statement.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 9

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Welsh Elections Information Platform (Amendments) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *19 January 2026* |
| *Coming into force* | *11 February 2026* |

The Welsh Minsters, in exercise of the powers conferred by section 26(1), (2), (3)(a), (4) and (8) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024(**1**), make the following Regulations.

### Title and coming into force

**1.** The title of these Regulations is the Welsh Elections Information Platform (Amendments) Regulations 2026.

**2.** These Regulations come into force on 11 February 2026.

### Interpretation

**3.** In these Regulations, "the 2025 Regulations" means the Welsh Elections Information Platform Regulations 2025(**2**).

### Amendments

**4.** The 2025 Regulations are amended in accordance with regulations 5 and 6.

**5.** In regulation 2 (interpretation)—

(a) in the appropriate place, insert—

""the 2025 Order" ("*Gorchymyn 2025*") means the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025;"(**3**);

(b) in the definition of "candidate", in paragraph (a), omit "who is a";

(c) in the definition of "election address", for "by virtue of an order under section 13 of the 2006 Act," substitute "under article 67 of the 2025 Order,";

(d) in the appropriate place, insert—

(**1**) 2024 asc 5.
(**2**) S.I. 2025/331 (W. 66).
(**3**) S.I. 2025/864 (W. 150).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

““individual candidate” (“*ymgeisydd unigol*”) means a candidate at a Senedd election other than a party list candidate;”.

**6.** In regulation 6(1) (information to be published on the platform)—

(a) for sub-paragraph (a)(i) substitute “(i) rule 3 of Schedule 5 to the 2025 Order;”;

(b) for sub-paragraph (b)(i) substitute “(i) rule 17 of Schedule 5 to the 2025 Order;”;

(c) for sub-paragraph (c)(i) substitute “(i) rule 31 of Schedule 5 to the 2025 Order;”;

(d) for sub-paragraph (f)(i) substitute “(i) rule 32(2) of Schedule 5 to the 2025 Order;”;

(e) for sub-paragraph (h)(i) substitute “(i) rule 62 of Schedule 5 to the 2025 Order;”.

**7.** In regulation 11(1) (candidate statement for ordinary elections of principal councils), omit sub-paragraph (b).

*Jayne Bryant*
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
19 January 2026